



Mae **Orbit360** yn system adborth cleifion a chydweithiwr penodol o'r pen i'r diwedd, yn rhoi adborth gan gydweithiwr sy'n integreiddio'n uniongyrchol i'r System Ailddilysu Arfarnu Meddygol (MARS).

Datblygwyd y system gan yr Uned Cymorth Ailddilysu a'r Tîm Digidol, fel rhan o Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, i gefnogi pob meddyg sydd â chysylltiad rhagnodedig â chorff a ddynodwyd gan y GIG yng Nghymru

Canllaw ar gwblhau eich adborth

Fel rhan o'ch proses ailddilysu, mae'r GMC yn gofyn i chi gasglu adborth ffurfiol gan eich cydweithwyr a'ch cleifion o leiaf unwaith ym mhob cylch ailddilysu. Mae Orbit360 yn caniatáu i chi gasglu adborth drwy ryngwyneb syml a hwylus sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'ch cyfrif MARS.

Ceir rhestr isod o Gwestiynau Cyffredin ac awgrymiadau er mwyn sicrhau bod y broses yn hawdd ac yn effeithlon. **Mae rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin i'w gweld [yma](#).**

Adborth Cydweithwyr



Angen **15** ymateb



8 wythnos i gasglu adborth



Casglu adborth yn electronic

Adborth Cleifion



Angen **34** ymateb



8 wythnos i gasglu adborth



Ymatebion paper neu ar-lein

Rôl y Cydweithiwr Meddygol Cynhaliol (SMC) yn y broses yw eich helpu i adfyfrio ar eich adborth – y pwyntiau cadarnhaol a'r pwyntiau negyddol. Rhaid i'ch SMC fod yn gydweithiwr meddygol. Ni chaiff fod yn berthynas.

Amlinellir y broses isod:

- ❖ Bydd eich SMC yn gwirio'r rhestr o gydweithwyr rydych wedi'u dewis. Dylech sicrhau bod y rhestr yn cynrychioli cydweithwyr o bob rhan o'ch practis
- ❖ Bydd eich adroddiad yn cael ei ryddhau i'ch SMC
- ❖ Dylai'r SMC roi adborth i chi am yr adroddiad
- ❖ Yna bydd yn rhyddhau'r adroddiad i chi



Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Adborth Cydweithwyr

Cyfeiriadau Ebst

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi'r cyfeiriad ebost cywir ar gyfer eich SMC a Chydweithwyr, rhag ofn na fyddant yn derbyn y gwahoddiad i gymryd rhan

Cwmpas y gwaith

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis o leiaf 15 o gydweithwyr sy'n cynrychioli cwmpas llawn eich practis (e.e. Nyrsys, staff gweinyddol, cydweithwyr clinigol)

Hysbysiadau

Bydd eich cydweithwyr yn derbyn hysbysiadau rheolaidd yn eu hatgoffa i gymryd rhan nes byddant wedi cwblhau'r adborth neu wrthod y gwahoddiad



CYCHWYNNWCH EICH AROLWG O ORBIT360

Yna gallwch gynhyrchu a lawrlwytho ffurflenni adborth claf o'ch cyfrif Orbit360, ynghyd â'r canllawiau rydych eu hangen ar gyfer y broses.

OS BYDDWCH WEDI DERBYN 34 YMATEB AR ÔL I 8 WYTHNOS FYND HEIBIO, BYDD YR ADRODDIAD YN CAEL EI GYNHYRCHU'N AWTOMATIG

NEU GORFYNNWCH AM GAEL ADOLYGIAD CYNNAR O'R ADRODDIAD OS YDYCH WEDI DERBYN O LEIAF Y LLEIAFSWM O YMATEBION SY'N OFYNNOL

PAN FYDD YR SMC YN RHYDDHAU'R ADRODDIAD, BYDDWCH YN GALLU GWELD UR ADRODDIAD YN EICH CYFRIF A LLWYTHO FERSIWN PDF I LAWR

BYDD YR ADRODDIAD AR GAEL I'CH SMC EI WELD

Os ydych yn cwblhau adborth claf yr un pryd, bydd yr SMC yn derbyn adroddiad cyfunol pan fydd y ddau arolwg yn gyflawn.



Adborth Cleifion

Lawrlwytho ac argraffu ffurflenni

Gallwch gynhyrchu, lawrlwytho ac argraffu ffurflenni cleifion o'ch cyfrif Orbit360, felly gallwch ddechrau casglu adborth cleifion ar unwaith

Gweinyddwy

Dylech ofyn i gydweithiwr weinyddu'r ffurflenni a argraffwyd ar eich rhan. Gallai'r cydweithiwr fod yn nyrs, ysgrifennydd/ysgrifenyddes neu reolwr practis.

Holiadur

Gall claf gwblhau arolwg papur neu gall gwblhau arolwg electronig gan ddefnyddio cod unigryw y gellir ei ddefnyddio unwaith.



Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



CYCHWYNNWCH EICH AROLWG O ORBIT360

Yna gallwch fewnbynnu manylion eich SMU a'ch Cydweithwyr yr un pryd, yn ogystal â chwblhau eich hunanasesiad

OS BYDDWCH WEDI DERBYN 15 YMATEB AR ÔL I 8 WYTHNOS FYND HEIBIO, BYDD YR ADRODDIAD YN CAEL EI GYNHYRCHU'N AWTOMATIG

NEU GORFYNNWCH AM GAEL ADOLYGIAD CYNNAR O'R ADRODDIAD OS YDYCH WEDI DERBYN O LEIAF Y LLEIAFSWM O YMATEBION SY'N OFYNNOL

PAN FYDD YR SMC YN RHYDDHAU'R ADRODDIAD, BYDDWCH YN GALLU GWELD UR ADRODDIAD YN EICH CYFRIF A LLWYTHO FERSIWN PDF I LAW

BYDD YR ADRODDIAD AR GAEL I'CH SMC EI WELD

Os ydych yn cwblhau adborth claf yr un pryd, bydd yr SMC yn derbyn adroddiad cyfunol pan fydd y ddau arolwg yn gyflawn.



Cwestiynau Cyffredin

Sut mae cychwyn yr arolwg?

Os ydych yn Feddyg â Chysylltiad Rhagnodedig yng Nghymru gallwch gychwyn arolwg yn syth o'ch cyfrif Orbit360.

Bydd dolen gyswllt yn eich cyfeirio o'ch System Arfarnu ac Ailddilysu Meddygol (MARS) i dudalen gartref [Orbit360](#). Ar ôl mewngofnodi dylech fynd i 'Manage Feedback' a dewis 'Initiate Survey'

Beth fydd yn digwydd pan fydda i'n cychwyn arolwg?

Gall Orbit360 gymeradwyo'r cais i gychwyn arolwg yn awtomatig os byddwch yn bodloni'r meini prawf. Ar ôl i'ch cais gael ei gymeradwyo'n awtomatig byddwch yn gallu rhoi manylion eich Cydweithiwr Meddygol Cynhaliol (SMC) a rhestr o gydweithwyr. Yna byddwch yn gallu lawrlwytho eich ffurflenni cleifion a chanllawiau perthnasol.

Os na fyddwch yn bodloni'r meini prawf uchod bydd y cais yn cael ei ailgyfeirio at eich corff dynodedig (e.e. Bwrdd Iechyd) i gael ei adolygu â llaw. Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn gywir ar y system Orbit360.



Health Education and Improvement Wales (HEIW) - TyDysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Dydw i ddim yn gweld cleifion. Beth yw'r broses i mi?

Os nad ydych yn gweld cleifion efallai y bydd yn briodol i chi gwblhau adborth cydweithiwr yn unig. Mae cynghor y GMC fel a ganlyn;

“Os nad ydych yn trin cleifion yn uniongyrchol, dylech feddwl yn ehangach ynglŷn â phwy all roi adborth i chi o safbwynt y rhai rydych yn gweithio iddynt fel meddyg. Er enghraifft, cleientiaid, rhai sy'n cael eu harfarnu, cwsmeriaid a rhai sy'n derbyn adroddiadau rydych yn eu darparu (a allai fod yn feddygon eraill) neu fyfyrwyr meddygol. Os gallwch gasglu adborth gan y mathau hyn o bobl dylech wneud hynny. Os nad ydych yn gallu casglu adborth gan eich cleifion yn uniongyrchol neu gan ddewisiadau eraill, rhaid i chi drafod hyn gyda'ch Swyddog Cyfrifol”.

Mae manylion cysylltu eich corff dynodedig i'w gweld [yma](#).

Pwy ddylai hwyluso/gweinyddu holiaduron cleifion?

Ni ddylai meddygon allu gweld ymatebion cleifion neu gydweithwyr unigol. Mewn lleoliadau clinigol gall y dderbynfa neu staff clinigol eraill fod yn gyfrifol am ddosbarthu pecyn yr arolwg. Lle bynnag y bo modd, ni ddylai holiaduron gael eu dosbarthu'n uniongyrchol gan y meddyg. Fodd bynnag, mewn rhailleoliadau mae'n bosibl y bydd angen i'r meddyg gysylltu a dosbarthu'r arolwg ei hun ar ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch weld rhagor o wybodaeth gan y GMC ynglŷn â hyn [yma](#).

Sut alla i fonitro cynnydd fy adroddiad?

Gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif Orbit360 i fonitro cynnydd eich adroddiadau 'yn fyw' unrhyw bryd. Byddwch yn gallu gweld faint o ymatebion rydych wedi'u cael, faint o ymatebion sydd eu hangen eto (er mwyn cyrraedd y trothwy) a faint o amser sydd ar ôl – mae hyn i'w weld ar gyfer adborth cleifion ac adborth cydweithwyr.

Mae rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin i'w gweld [yma](#).

